

## Y Grŵp Trawsbleidiol ar Brifysgolion

Y rhai a oedd yn bresennol a'r cofnodion

Dydd Mawrth 12 Gorffennaf 2022

12.00pm - 1.30pm

Tŷ Hywel / Ar-lein

### Yn bresennol

**Hefin David AS** - AS Caerffili (Cadeirydd)

**Yr Athro Maria Hinfelaar** - Is-Ganghellor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Is-gadeirydd, Prifysgolion Cymru. Bydd yn arwain ar gyfer Prifysgolion Cymru)

**Yr Athro Cara Aitchison** - Is-Ganghellor, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Daniel Gartner** - Athro Ymchwil Gweithredol, Prifysgol Caerdydd

**Dr Ross Head** - Rheolwr Dylunio Canolfan Arloesedd Cerebra, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Yr Athro Cathy Treadaway** - Athro Ymarfer Creadigol, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

**Yr Athro Hywel Thomas** - Llywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru (Ar-lein)

**Mari Fleur** - Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Ar-lein)

**Yr Athro Sheldon Hanton** - Prifysgol Metropolitan Caerdydd (Ar-lein)

**Dr Matthew Briggs** - Pennaeth Datblygu Ymchwil ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (Ar-lein)

**Harriet Barnes** - Cyfarwyddwr Polisi a Chyllid, CCAUC (Ar-lein)

**David Blaney** - Prif Weithredwr, CCAUC (Ar-lein)

**Jena Quilter** - Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yn y Senedd

**Owen Jones** - Swyddfa Jayne Bryant AS

**Haleema Kahn** - Swyddfa Sioned Williams AS

**Alex Still** - Uwch Gynghorydd i Hefin David AS

**Jamie Insole** - Undeb Prifysgolion a Cholegau

**Amanda Wilkinson** - Cyfarwyddwr, Prifysgolion Cymru

**Kieron Rees** - Prifysgolion Cymru

**Lewis Dean** - Prifysgolion Cymru

**Joshua Bell** - Prifysgolion Cymru

**Sophie Douglas** - Prifysgolion Cymru (Ar-lein)

## Cofnodion

Croesawodd **Hefin David AS (Cadeirydd)** yr holl westeion i'r cyfarfod.

Rhannodd **yr Athro Maria Hinfelaar** (Is-gadeirydd Prifysgolion Cymru ac Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr Wrecsam) sylwadau agoriadol. Amlygwyd canlyniadau REF 2021, a nodwyd bod heriau o'n blaenau yn y dyfodol o ran cynyddu capasiti a gallu ymchwil.

**Soniodd yr Athro Hinfelaar** hefyd am bwysigrwydd cyllid QR, a fydd yn galluogi llwyddiant parhaus o ran sicrhau cyllid gan UKRI.

Cafwyd tri chyflwyniad gan academyddion o brifysgolion Cymru (mae'r bywgraffiadau a manylion yr astudiaethau achos wedi'u nodi isod – yn ôl trefn eu cyflwyno).

### **Yr Athro Daniel Gartner, Prifysgol Caerdydd - Modelu mathemategol wedi'i wreiddio yn y GIG**

Daniel Gartner yw'r Athro Ymchwil Gweithredol yn Ysgol Mathemateg Prifysgol Caerdydd.

**Cefndir i fodlu mathemategol wedi'i wreiddio ym mhrosiect y GIG** - Mae Ymddiriedolaeth Ambiwlans Llundain yn gyfrifol am ymateb i sefyllfaoedd meddygol brys o fewn gwasanaeth ambiwlans prysuraf y DU. Gweithiodd ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd gyda'r Ymddiriedolaeth i wella effeithlonrwydd. Gan ddefnyddio modelu mathemategol, roedd y tîm yn gallu defnyddio'r data i helpu gwasanaeth Ambiwlans Llundain ddatblygu swyddfa ragolygon, sy'n rhagweld gofynion adnoddau mor bell ag 14 diwrnod ymlaen llaw. Roedd hyn yn galluogi penderfyniadau call a rhagweithiol o ran staffio. Mae modelu mathemategol arloesol gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd hefyd yn sicrhau gwell deilliannau canser a gwasanaeth cyswllt GIG newydd.

**Linc i'r prosiect** - <https://www.cardiff.ac.uk/cy/research/impact-and-innovation/research-impact/saving-lives-with-maths>

### **Pennaeth Dr Ross, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant - Prosiect Cerebra**

Dr Ross Head yw Rheolwr Dylunio Canolfan Arloesedd Cerebra ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

**Cefndir i brosiect Cerebra** - Mae ymchwil gan Ganolfan Arloesedd Cerebra Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn helpu i wella bywydau plant sydd â chyflyrau niwroddatblygiadol. Dan arweiniad Dr Ross Head, mewn cydweithrediad â'r elusen genedlaethol Cerebra, cynlluniwyd sedd Goto, yn wreiddiol mewn ymateb i gais rhiant am gymorth i fynd â phlentyn i'r archfarchnad. Oherwydd cyflwr y plentyn, nid oedd ganddo'r cryfder craidd i allu eistedd mewn sedd troli safonol archfarchnad. Gwnaed dyluniad a phrototeipiau cychwynol a'u profi gyda'r plentyn mewn archfarchnad i asesu eu haddasrwydd, eu cymorth o ran cynnal y corff, eu natur addasadwy a'u ffit. Mae'r sedd a dyluniad y sgwter wedi gwella bywydau llawer o blant sy'n byw gyda chyflyrau difrifol yn sylweddol. Mae'r ymchwil wedi cynyddu cynhwysiant, integreiddio a rhyngweithio â phobl, ac wedi trawsnewid bywydau llawer o blant a'u teuluoedd.

**Lincs i'r prosiect** - <https://cerebra.org.uk/cic/cerebra-and-leckey-goto-seat/>

<https://cerebra.org.uk/cerebra-innovation-centre-portfolio/scoot/>

**Yr Athro Cathy Treadaway, Prifysgol Metropolitan Caerdydd - prosiect HUG™**

Mae Cathy Treadaway yn Athro Ymarfer Creadigol ac yn un o sylfaenwyr CARIAD ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

**Cefndir i'r prosiect HUG™** - Mae ymchwilwyr dylunio ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd wedi creu tegan HUG™ sydd â'r nod o roi cysur a gwella llesiant pobl sy'n byw â dementia datblygedig. Mae ganddo galon sy'n curo, mae'n chwarae cerddoriaeth, ac mae ganddo aelodau wedi'u trymhau sy'n rhoi'r teimlad o roi a chael cwtsh. Mewn astudiaeth cartref gofal, dangosodd pobl a ddefnyddiodd y tegan HUG™ am chwe mis gynnydd o 87 y cant yn eu llesiant. O ganlyniad, mae teganau HUG™ bellach yn cael eu rhagnodi ar y GIG. Lanswyd cwmni deillio'r Brifysgol yn 2020, gyda dros £105K o gyfalaf buddsoddi i'w gefnogi o ffynonellau gan gynnwys Ymgyrch Cyllido Torfol a Chymdeithas Alzheimer y DU .

**Linc i'r prosiect** - <https://www.metcaerdydd.ac.uk/about/who-we-are/Pages/hug.aspx>

**Diolchodd Hefin David AS** i'r academyddion a chyflwynodd gyfnod byr o drafod.

Gofynnodd gwestiwn i'r academyddion ynghylch 'beth sydd angen i Lywodraeth Cymru ei wneud i alluogi twf parhaus ym maes ymchwil ac arloesi?'

Nododd **Dr Ross Head** y byddai eu prosiect yn elwa o gymorth datblygu busnes a'r buddsoddiad i wneud i brosiectau ddigwydd. Tynnodd sylw at y ffaith eu bod yn gwybod bod ganddynt gynhyrchion masnachol hyfyw ac y gallent elwa o gefnogaeth gyda masnacheiddio.

Nododd **David Blaney** yr astudiaethau achos gwych, a nododd bwysigrwydd yr enghreifftiau sy'n dangos bod ymchwil ac arloesi yn ehangach na 'gwyddoniaeth galed'.

Esboniodd **yr Athro Cathy Treadaway** ei bod yn ymddangos bod datgysylltiad. Er bod HUG yn cael ei ragnodi ar y GIG, roeddent wedi cael problemau gyda Technoleg Iechyd Cymru, a oedd am gael hap-dreialon dan reolaeth yn hytrach na data ansoddol. Mae rhwystrau o hyd o ran cael mynediad at y cyllid cywir.

Nododd **yr Athro Cara Aitchison**, er mwyn i bobl allu gwneud ceisiadau dilys am arian gan gynghorau ymchwil, mae angen iddynt gael hanes blaenorol yn y maes a'r cit/peiriannau/seilwaith – a chyllid QR yw hynny. Os ydym am ddatblygu ac ehangu'r cyfraniad y gall AU ei wneud drwy ymchwil gymhwysol i Gymru, yna mae'n rhaid inni fuddsoddi yn y seilwaith ymchwil sylfaenol.

Nododd **yr Athro Maria Hinfelaar** fod safon yr ymchwil o leiaf ar yr un lefel â gweddill y DU, a'i bod yn amlwg fod yr astudiaethau achos o safon 4 seren.

**Cytunwyd i ysgrifennu llythyr, wedi'i lofnodi ar y cyd gan Sioned Williams AS a Jayne Bryant AS, yn pwysleisio pwysigrwydd cyllid QR.**

**Daeth Hefin David AS** â'r sesiwn i ben a nododd y bydd yn parhau i godi'r materion a amlygwyd gyda Llywodraeth Cymru.